CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun 4 Ionawr 2016

Presennol:
*Cadeirydd: Cyng* Mrs Amanda Edwards. *Cynghr:* Colin Lewis, Gareth Evans, Peter Hazzelby, Ken Symmons, Bryan Rees, Mrs Kay Morgan

*Cyng Sirol* Haydn Lewis

Clerc

Aelodau'r cyhoedd: 0

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a dymunodd Flwyddyn Newydd dda iddynt.

Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr: I Davies, yn gweithio oddi cartref, Mrs J Hawkes a oedd yn dal yn anhwylus, a Mrs E Davies.
Nododd y Cyngor fod y Cyng Mrs Hawkes, yn ei hymddiheuriad, wedi ailddatgan ei hymrwymiad i'r Cyngor.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim

**4. Materion Personol**
Clywyd bod gwraig y Cyng Sirol yn cael triniaeth feddygol. Estynnwyd dymuniadau da'r Cyngor Cymuned i'r Cyng Sirol a'i deulu ar yr adeg hon.

Cytunwyd i ysgrifennu llythyr llongyfarch at Mr K James yn dilyn ei lwyddiant bowls yn ddiweddar.
GWEITHREDU: Ysgrifennu llyrthyr GAN: Y Clerc

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Nid oedd dim ceisiadau newydd wedi dod i law.

*Dogfen gefnogi ymgynghorol*
Ymlaen: Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol
Nodwyd.

*Penderfyniadau - Nodwyd*
A150909 – Amrywio amod 2 yn y caniatád cynllunio
A140822 (cynllun diwygiedig – caniatau lleihau arwynebedd llawr yr estyniad) – Tanyronnen, Llangoedmor, Aberteifi
A150202 – Dymchwel sgubor a beudy a chodi un annedd gyda chysgodfan car – Yr Hen Feudy, Llangoedmor, Aberteifi

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cadarnhau cofnodion 7.12.15
Tudalen 213, eitem 11, newid SLT i SLt
Tudalen 215, eitem 15, newid 'mur wrth adeilad Cilgerran TVs' i 'mur gyferbyn ag adeilad Cilgerran TVs'
Ar ôl cytuno'r newidiadau hyn cynigiodd y Cyng C Lewis y dylid derbyn y cofnodion fel rhai cywir, ac eiliwyd gan y Cyng G Evans.

**7. Materion yn Codi**
Mynegwyd pryder fod Pont Llechryd, ar ôl y llifogydd yn ddiweddar, wedi'i hailagor heb unrhyw fath o archwiliad o'r adeiladwaith, yn ôl pob golwg. Dywedwyd bod defnyddwyr y ffordd, ar ôl i lefel y dŵr ostwng, wedi bod yn gyrru o gwmpas yr arwydd 'ffordd ar gau' ac ar draws y bont. Dywedodd y CS H Lewis fod y bont yno ers dros 300 mlynedd.

Cyflwynodd y Cadeirydd fanylion cyswllt ar gyfer Mr Lee i'r Clerc. Roedd Mr Lee yn dymuno cyflwyno mainc i'r pentref er cof am ei ddiweddar wraig. Awgrymodd y CS H Lewis y dylid gwneud yn glir pwy fyddai'n berchen y fainc.

Nodwyd ymateb Cyngor Sir Ceredigion (CSC) am y mur cynnal ar y brif ffordd wrth ymyl Ystâd Glanarberth. Er bod yr ymateb yn dweud bod y mur wedi'i archwilio ac yn cael ei ystyried yn ddiogel ac y byddai coed yn cael eu harchwilio, cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gofyn am archwiliad rheolaidd a'r Cyngor Cymuned yn cael gwybod y canlyniad.
GWEITHREDU: Cyswllt CSC GAN: Y Clerc

Cadarnhawyd eto bod y cofnodion a fuasai ar goll wedi dod i glawr.

*Gadawodd y CS H Lewis y cyfarfod*

**8. *Cyllid a Gweinyddu***
*Awdurdodi Talu Biliau*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwr Cymru | Cyflenwad dwr toiledau cyhoeddus | | 386.56 | | 386.56 |
| SWALEC | Trydan toiledau cyhoeddus | | 1.14 | 0.03 | 1.11 |
| S Houghton | Cyflog Rhag | AS | 249.34 | | 249.34 |
| HMRC | Treth S Houghton Rhag | | 62.20 | | 62.20 |
| S Houghton | Swyddfa Gartref Rhag | | 25.00 | | 25.00 |
| | | | 894.24 | 0.03 | 894.21 |
| | Cyfanswm hyd yma: | | 894.24 | 0.03 | 894.21 |

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn dod á chymhariaeth o gostau dŵr i'r cyfarfod nesaf.
GWEITHREDU: Dod o hyd i filiau dŵr i'w cymharu GAN: Y Clerc
Cynigiwyd: Cyng K Symmons Eiliwyd: Cyng B Rees, penderfynwyd yn unfrydol.

*Cyfrifon Banc*
£7850.63 ar 30.10.15
Dywedodd y Clerc fod tua £4k i ddod i mewn i'r Cyfrifon ym mis Tachwedd. Nid oedd hwn wedi ei ychwanegu eto gan nad oedd cyswllt i'r cyfrifon a'r adroddiadau banc diweddaraf ar gael ar hyn o bryd.

*2016/17 Cyllideb*
Pleidleisio dros y panel taliadau
Nid oedd y Clerc yn hollol sicr a oedd yn rhaid cymryd y bleidlais ar gyfer blwyddyn ariannol 16/17, ond awgrymodd y byddai'r Cyngor yn cael ei ddiogelu pe bae'n dangos ei fwriad ar bob un o'r 5 pwynt.
1. Sicrhau y gallai o leiaf rai o'r costau o gynrychioli'r gymuned gael eu talu – hyd at £100 pa – Ni chytunwyd
2. Caniatáu i dreuliau partneriaeth ac ymgysylltu y tu allan i'r Cyngor gael eu talu - cytunwyd
3. Sicrhau bod costau gwneud swydd sifig yn cael eu darparu – ni chytunwyd
4. Caniatáu cydnabod swyddi uwch/heriol penodol - hyd at 3 swydd am £500 pa - ni chytunwyd
5. Caniatáu talu lwfans am ofalu i bobl ddibynnol lle byddai angen er mwyn i aelodau allu mynychu cyfarfodydd - ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai hyd at £600 yn cael ei ddarparu o'r gronfa wrth gefn ym mlwyddyn ariannol 16/17 os byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei phasio.

*Cronfa wrth gefn re cynnal a chadw adeiladau*
Ar ôl trafodaeth cytunwyd bod y Cyngor yn gyffredinol yn gwneud darpariaeth addas o fewn y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw cyffredinol, ac y dylai'r gronfa wrth gefn sydd gan y Cyngor fod yn ddigonol i ofalu am ddigwyddiadau annisgwyl eraill.

Wedyn adolygodd y Cyngor ffigurau'r gyllideb a oedd wedi'u darparu gan y Clerc, ac ar ôl trafod cynigiwyd praesept o £24000 am y flwyddyn ariannol 2016/17 gan y Cyng Mrs Morgan. Eiliwyd gan y Cyng B Rees a chytunwyd yn unfrydol.

*Contractau: Torri porfa – contract a thelerau wedi'u diweddaru i gael eu hystyried*
Roedd y Clerc wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf. Ar ôl trafodaeth cytunwyd ar ffurf y contract a rhoddwyd caniatâd i'r Clerc wneud y newidiadau angenrheidiol yn y dogfennau presennol a hysbysebu am ddyfynbrisiau GAN: Y Clerc

Yn ystod y drafodaeth sylwyd bod y llwybr troed i'r cae wrth ymyl y neuadd mewn cyflwr gwael iawn.
GWEITHREDU: Ysgrifennu at y Neuadd i ofyn a allai'r llwybr gael ei lanhau a'i glirio er mwyn diogelwch GAN: y Clerc

*Cofrestr asedion / Yswiriant*

Roedd y Clerc wedi darparu asesiad sylfaenol o yswiriant cyfredol y Cyngor. Cytunodd y Cadeirydd i edrych ar hwn a dod ag adroddiad i'r cyfarfod nesaf.

Ariannu grant
Gofynnodd y Clerc pryd fyddai'r Cyngor yn ystyried ceisiadau grant. Dywedwyd wrthi mai ym mis Tachwedd a mis Ebrill yr oedd hynny'n digwydd. Gan nad oedd ariannu grant wedi'i ystyried yng nghyfarfod mis Tachwedd, cytunwyd y dylai unrhyw geisiadau am grant gael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Chwefror.
GWEITHREDU: Eitem ar agenda Chwefror GAN: Y Clerc

*Gliniadur/Gwefan*
Roedd y Clerc wedi gorfod gadael y gliniadur gyda Telemat rhwng 17.12.15 a 31.12.15. Dywedodd iddo fod yn araf iawn a'i fod wedi methu lawer gwaith. Byddai'n defnyddio gliniadur y Cyngor pan fyddai'n cael hyfforddiant gwefan, a byddai'n trafod y problemau sy'n parhau gyda'r cwmni bryd hynny.

*Contract/Disgrifiad swydd y Clerc*
Ymddiheurodd y Cadeirydd a dywedodd y byddai'r dogfennau diwygiedig ganddi erbyn cyfarfod mis Chwefror.
GWEITHREDU: Contract a disgrifiad swydd GAN: y Cadeirydd.

Roedd y Clerc wedi darparu rhestr o ddyddiadau dros dro ar gyfer cyfarfodydd, a chawsant eu cytuno gan bawb a oedd yn bresennol.
Byddai'r Cyng P Hazzelby yn rhoi copi i'r Clerc Llogi ar gyfer yr Ysgoldy a'r Clerc yn cadarnhau'r dyddiadau gyda Chlerc Llogi Neuadd y Cwrwgl.

*Cynllunio Argyfwng* – Cyng J Hawkes - Gohiriwyd

**_9._ Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol – Cyng C Lewis*
Nid oedd gwybodaeth ddiweddar ar gael.

*Mur Cynnal: Ymateb gan CSC*
Cynhwysir ym materion sy'n codi.

**10. Amwynderau**

*Maes Chwarae*
Archwiliad: Byddai Mr Elfyn Rees yn barod i gyfarfod á Chynghorwyr a mynd drwy ofynion archwiliad gweledol sylfaenol o'r maes chwarae. Gallai rota gael ei sefydlu wedyn. Byddai'r Cynghorwyr hynny a allai fod yn bresennol ar ddyddiad penodol wedyn yn gallu dangos beth sy'n ofynnol i'r rheiny na fyddent yn gallu bod yn bresennol.

GWEITHREDU: Trefnu dyddiad GAN: Y Clerc

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn trefnu archwilio'r maes chwarae bob blwyddyn.

*Pafiliwn Milieniwm*
Dywedodd y Clerc fod rhai llechi bach wedi disgyn oddi ar y mur ond ni allai weld dim niwed arall.
Dywedodd y Cyng G Evans y byddai'n glanhau'r gwteri a chytunodd y Cadeirydd i helpu. Byddai hefyd yn glanhau'r paneli arddangos.

Gofynnodd y Cyng K Symmons a allai'r aradr sy'n cael ei harddangos yn y Pafiliwn gael ei pheintio. Cytunwyd y byddai hynny'n cael ei wneud pan fyddai'r tywydd wedi gwella.
GWEITHREDU: Eitem ar agenda mis Mai GAN: Y Clerc

**11. Prosiectau'n Parhau**

*Cofeb Rhyfel* – Cyng B Rees
Roedd y Cyng B Rees wedi darparu gwybodaeth yn dangos arddull plac a allai fod yn addas. Ar ôl trafodaeth am y geiriad a maint y plac, cytunodd y Cyng B Rees i gael dyfynbrisiau.

*Plac – SLt Lawrence*
Dywedodd y Clerc ei bod wedi gohirio cysylltu á'r teulu tan ar ôl y Nadolig/y Flwyddyn Newydd.

*Diffribileiddiwr* – Cadeirydd
Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen arwydion i ddangos sut i agor y blwch ynghyd a chyfarwyddiadau sylfaenol. Byddai'n holi ynglýn a hyn. Sylwyd bod un o gorneli'r blwch wedi'i niweidio a dywedwyd bod hynny wedi digwydd cyn i'r blwch gael ei roi i'r trydanwr.
GWEITHREDU: Ymholi i ddarparu arwyddion GAB: Y Cadeirydd

*Mr Lee – Mainc* – Cadeirydd
Roedd manylion cyswllt nawr wedi eu rhoi i'r Clerc.

**12. Digwyddiadau**
Dim

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**
Dim

**14. Gohebiaeth + negeseuon e-bost**
*I'w trafod:*
Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft – *Dyddiad cau Chwe 2016*
Cytunwyd y byddai Cyngr yn cyfleu eu sylwadau wrth y Clerc, a fyddai'n eu hanfon o gwmpas cyn cyfarfod mis Chwefror. Y gobaith oedd y gallai'r ymateb gan Un Llais Cymru fod ar gael cyn y cyfarfod.
GWEITHREDU: Ynglŷn ag anfon gwybodaeth - gan Cyngr GAN: Y Clerc

Mesurau rheoli newydd arfaethedig ar gyfer y bysgodfa cregyn bylchog yn Aberteifi - dyddiad cau 17.2.16
Nodwyd.

Cais gan Gyngor Tref Aberteifi i gefnogi'r gwahoddiad, a oedd wedi'i anfon at Gyngor Tref Aberteifi i wahodd Eisteddfod Genedlaethol Cymru i'r ardal yn 2020.
GWEITHREDU: Llythyr cefnogi i'w ysgrifennu GAN: Y Clerc

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gwahoddiad i ddigwyddiad yn Neuadd Goffa Aberaeron ar 19 Ionawr 2016,18.00 – 20.00 Angen ateb.
Cytunwyd y dylai unrhyw sy'n dymuno bod yn bresennol gysylltu á'r Clerc.

*Er gwybodaeth - Nodwyd*
Gwybodaeth oddi wrth: Rheolwr Prosiect Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru
Lansio Ymgynghoriad ar Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd
Mwy na dim ond geiriau…. Fframwaith Strategol dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
*Cyfle i Gynghorwyr gyfnewid gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol a gofyn am eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol a gofyn am ymchwilio i eitemau yn y dyfodol*
Gofynnodd y Cyng C Lewis, yn sgil y llifogydd yn ddiweddar, a allai'r Cyngor gysylltu á'r trigolion yn Nhŷ Glannau i weld a oedd y mesurau newydd i amddiffyn rhag llifogydd wedi'u defnyddio a pha mor effeithiol oedden nhw. A gofyn hefyd a allai'r Cyngor Cymuned gynnig unrhyw gefnogaeth yn sgil y llifogydd yn ddiweddar.

Roedd gan y Cyng C Lewis lun o'r blwch band eang a oedd newydd ei osod dros ei ben yn y llif yn ddiweddar.
GWEITHREDU: Anfon copi at y Clerc, a fyddai'n ei anfon at BT Openreach.

Gofynnodd y Cadeirydd a ellid anfon llythyr at CSC am gyflwr peryglus Lôn y Ladi ar y tro cyn y Capel. Roedd y llif yn gwneud y ffordd yn eithriadol o beryglus. Deallai efallai fod perchnogion y tir wrth ymyl y ffordd wedi dod i gytundeb á CSC i ganiatáu traenio dŵr llifogydd, ond nid oedd dim gwaith wedi'i wneud hyd yma.
GWEITHREDU: Cysylltu a CSC GAN: Y Clerc

Gofynnodd y Cyng G Evans a allai rhestr wedi'i diweddaru o fanylion cyswllt ar gyfer y Cyngr gael ei hanfon o gwmpas a'i gosod ar fyrddau hysbysu.
GWEITHREDU: Copi drafft i'w anfon o gwmpas GAN: Y Clerc

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Nos Lun 1 Chwefror 2016, Neuadd y Cwrwgl

*Gan nad oedd busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am: 9.15 pm.*